

# MANIFFESTO ADFER

# MANIFFESTO ADFER

MUDIAD ADFER

Mehefin 1987

# Rhagymadrodd

Iaith, ac nid dim arall, a wna genedl. Bydd cenedl cyhyd ag y byddo byw ei hiaith; ac er mwyn i iaith fyw rhaid iddi wrth gartref, sef darn tir lle bo'n rhaid wrthi hi ac nid wrth unrhyw iaith arall. Rhaid iddi wrth arwynebedd daear lle bo'n gyfrwng cyflawni holl anghenion cyfathrebol y gymdeithas gyfan, a lle bo iaith a thir a chymuned wedi cyd-ddatblygu a chyd-ymdreiddio dros amser yn we gymhleth, anwahanadwy.

Po fwyaf y cylchoedd a nifer yr achlysuron lle y defnyddir yr iaith honno'n unig, a pho ehangaf ei thiriogaeth ei hun, gorau oll y ffynna. Pan gyfyngir ar ei defnydd o fewn y gymuned, a phan gyll ei throedle ar dir, dyna pryd y dechreua beidio â bod. Gellir ei cholli'n llwyr. Os digwydd hynny, nid cyfnewid yn unig un iaith am un arall a wneir, ond dinistrio'r we gymhleth honno a blethwyd gan y canrifoedd, a chwalu cymdeithas, a diffodd athrylith, a dryllio hunaniaeth. Golyga diwedd iaith ddiwedd cymuned, diwedd cenedl, diwedd holl fyd y genedl honno. Difancoll.

Tynged erchyll, a thynged sicr y Cymry onid awn ati rhag blaen i ddiogelu hanfodion ein hunaniaeth. Dyna ddyletswydd pob un ohonom fel aelodau cenedl. Er mwyn llwyddo, rhaid inni gydnabod tarddle ieithyddol a diwylliannol yr arwahanrwydd a rydd inni ein lle ymysg cenhedloedd eraill y byd. Rhaid inni benderfynu ein bod am barhau fel cenedl. Yna rhaid gweithredu er mwyn newid ein hamgylchiadau o blaid ein parhad.

Er mwyn cyflawni'r gofynion hyn y mae Mudiad Adfer yn bod. Dyna paham y pwysleisiwn hanfodolrwydd y Gymraeg, parhad ei throedle, sef Y Fro Gymraeg, a ffyniant diwylliannol a materol ein cymunedau brodorol. Trwy'r Maniffesto hwn, ceisiwn ledu gwybodaeth ynghylch sut yn union y gellir llwyddo yn yr amcan: dyma restr argymhellion ynghylch lleiafswm yr hyn sydd raid wrtho mewn pum maes allweddol er mwyn sicrhau parhad y genedl Gymraeg yn nannedd ei hargyfwng. Y neges yw y medrwn lwyddo, y medrwn barhau; nid trwy ddamcaniaethu gwag, ond trwy ganlyn canllawiau cwbl ymarferol tuag at ein delfryd. Dyna a geir yma. Ni wna dim llai mo'r tro.

Trwy brofiad a gwybodaeth y lluniwyd yr argymhellion hyn, ac o'u gweithredu'n fuan ac yn effeithiol gallant fod yn foddion achubiaeth i Gymreictod. Ac nid achubiaeth iaith a diwylliant a chenedligrwydd yn unig, ond achub ac ailadeiladu cymdeithas lle bo gwerth ar bethau o'r fath, lle y'u trysorir a'u trosglwyddo; cymdeithas lle bo rhyddid i fyw yng nghyfoeth a goleuni cyflawnder ein hetifeddiaeth, cymdeithas frawdgar, gydweithredol, gydymdrechgar y gymuned wreiddiedig, sefydlog. Dyna'r unig gymdeithas a ddichon fod yn wâr. Onid dyna rywbeth gwerth ei ennill?

Howard Huws,
Cadeirydd Mudiad Adfer.

Penrhosgarnedd,
Mehefin 1987.

# Cyflwyniad

Ar gyfer cynghorau etholedig Y Fro Gymraeg, a chyrff cyhoeddus eraill sy'n gwasanaethu ei chymunedau, y bwriedir yr argymhellion a geir yn y Maniffesto hwn. Ymdrinnir â phum maes, sef **Statws Cyhoeddus y Gymraeg, Tai a Chynllunio, Twristiaeth, Datblygu,** ac **Addysg**, ac ym mhob adran cynigir i'n cynrychiolwyr ddulliau gweithredu a fydd yn gyfrwng i amddiffyn ac atgyfnerthu Cymreictod ein cymunedau.

Daeth argyfwng Cymreictod yn rhan o brofiad beunyddiol pob Cymro a Chymraes yn Y Fro Gymraeg. Natur ein hymateb ni fel Cymry i'r argyfwng hwn heddiw fydd yn penderfynu a greir dyfodol i'n cenedl. Am mai iaith sy'n cynnal ein cenedligrwydd, ac am mai cymunedau gwreiddiedig yw cynheiliaid yr iaith honno, dibynnu a wna ein parhad yn anad dim ar ewyllys siaradwyr y Gymraeg i goleddu'r iaith a'i throsglwyddo o fewn ein cymunedau. Heb greu ynom yr ewyllys hon, a'i mynegi ym mhob agwedd ar ein bywyd beunyddiol, ni fydd ein hymateb yn un digonol. Cenhadaeth arbennig Mudiad Adfer yw mai trwy weithredu gwirfoddol, cadarnhaol ymysg ein pobl yn ein bröydd yr esgorir ar yr ewyllys i barhau.

Mawr yw'r cyfrifoldeb ar bob un ohonom yn yr argyfwng sy'n wynebu'r genedl Gymraeg heddiw. Mwy fyth yw'r cyfrifoldeb a osodir ar y rhai a etholir gennym i'n cynrychioli ar ein cynghorau. Mae i lywodraeth leol le arbennig fel cyfrwng i sicrhau cartref tiriogaethol parhaol i'r Gymraeg. Er mai cyfyng yw eu pwerau, mae'r cynghorau yn meddu o hyd ar allu sylweddol i greu amodau o blaid parhad y cymunedau Cymraeg. Am mai hwy yw'r unig gyrff democrataidd sydd yn gynhenid i'r Fro Gymraeg, atynt hwy y dylid edrych i greu grym gwleidyddol i warchod lles ei dinasyddion. Trwy fabwysiadu'r polisïau a geir yma bydd llywodraeth leol yn Y Fro Gymraeg yn datblygu yn ei hanfod yn llywodraeth genedlaethol.

# Statws Cyhoeddus y Gymraeg

Dylid sicrhau statws cyhoeddus cyflawn i'r Gymraeg. Golyga hyn fod y Gymraeg yn dyfod yn unig iaith swyddogol Y Fro Gymraeg. Mae'r polisi canlynol yn cwmpasu gwaith cynghorau lleol, cyrff cyhoeddus ac adrannau llywodraeth.

**1. Penodi.** Cyn y gellir sicrhau fod y Gymraeg yn cael cyfle i ffynnu fel iaith fyw mewn gweithgaredd cyhoeddus a swyddogol, rhaid wrth staff a fo'n medru'r Gymraeg. Mae'n dilyn y dylai medr o'r Gymraeg fod yn gymhwyster hanfodol ar gyfer swyddi cyhoeddus yn Y Fro Gymraeg. Argymhellwn y canllawiau canlynol cyn penodi:

(a) Gosod medr o'r Gymraeg yn amod wrth hysbysebu, a nodi bod disgwyl i'r sawl a benodir weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid nodi mewn hysbysebion swyddi mai'r Gymraeg yw iaith gweinyddu'r awdurdod.

(b) Hysbysebu yn Gymraeg.

(c) Hysbysebu mewn cyhoeddiadau cenedlaethol a lleol Cymraeg.

(ch) Sefydlu hawl siaradwyr y Gymraeg i gyfweliad Cymraeg am swyddi gyda chynghorau a chyrff cyhoeddus eraill.

**2. Gweinyddu.** Dylai siaradwyr Cymraeg gael derbyn gwasanaeth cyflawn Gymraeg gan gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill.

(a) Gwasanaethau ffôn a chroeso;

(b) Cyhoeddusrwydd a chyflwyno gwybodaeth;

(c) Adroddiadau, cofnodion, cylchlythyrau ac yn y blaen;

(ch) Cyfarfodydd pwyllgorau;

(d) Ffurflenni, dylebion (gan gynnwys papur y dreth), ac yn y blaen;

(dd) Arwyddion ar gerbydau ac adeiladau;

(e) Arwyddion a hysbysiadau mewn sefydliadau;

(f) Enwau lleoedd ar arwyddion cyfeirio;

(ff) Enwau ffyrdd a strydoedd ar arwyddion.

**3. Darparu Cyrsiau** Gyda'r staff ddi-Gymraeg bresennol dylid darparu cyfleusterau i ryddhau aelodau i ddilyn cyrsiau dysgu Cymraeg.

Gyda staff Gymraeg heb brofiad o weinyddu trwy'r Gymraeg, dylid darparu cyfleusterau i ryddhau aelodau i ddilyn cyrsiau gloywi iaith.

Dylid datblygu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sefydliadau addysgol hynny sy'n darparu ar gyfer y gwahanol feysydd sy'n ymwneud â gwaith cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill.

Dylid darparu hyfforddiant-mewn-swydd ar gyfer cymhwyso staff y tu mewn i awdurdodau, ac ar gyfer rhai a benodir o'r newydd, er mwyn sicrhau safle'r Gymraeg fel iaith yr awdurdod.

Dylid cynnal arolwg blynyddol o fewn yr awdurdodau cyhoeddus er mwyn cyhoeddi ffigyrau a gwybodaeth ynglŷn â safle'r Gymraeg y tu mewn iddynt.

# Tai a Chynllunio

Lluniwyd a mabwysiadwyd yr argymhellion yn y polisïau hyn yn ymateb ar ran Mudiad Adfer i'r bygythiadau a'r tueddiadau sy'n prysur danseilio a pheryglu bodolaeth a pharhad yr hyn sy'n weddill o'n bröydd Cymraeg. Er mwyn achub yr iaith fel cyfrwng cymdeithasol beunyddiol ymysg ein pobl y mae'n hanfodol bellach greu amodau a fydd yn diogelu ac yn cryfhau ein bröydd fel cartrefi parhaol i'r Gymraeg.

Seiliwn ein hargymhellion ar brofiad ymarferol gyda Chwmni Adfer, yn darparu tai ar gyfer teuluoedd Cymraeg tros y deng mlynedd diwethaf, ac ar astudiaeth gymdeithasegol o'r sefyllfa ieithyddol sydd ohoni. Y mae ystadegau iaith Cyfrifiad 1981 yn ategu'r angen i'n cynghorau fabwysiadu polisïau llawer mwy cadarnhaol i atal dirywiad pellach yn safle'r Gymraeg.

Daw'n fwyfwy amlwg pa mor hanfodol bwysig yw cynllunio bwriadol er lles ffyniant ein cymdeithasau Cymraeg. Er cyflawni hyn, dylid gweithredu'n llawn yr egwyddor o Statws Cynllunio i'r Iaith Gymraeg. O astudio ystadegau iaith Cyfrifiad 1981, gwelir enghreifftiau lu lle'r oedd codi ystadau tai (yn yr adran breifat a'r adran gyhoeddus) y tu hwnt i anghenion y gymdeithas Gymraeg wedi peri dirywiad yn safle'r iaith ac wedi gwanychu'r bywyd Cymraeg yn ein pentrefi.

Ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd y maes cynllunio mewn perthynas â phob agwedd ar y gwasanaethau cyhoeddus. Dylid cynllunio ar gyfer anghenion y gymdeithas gynhenid yn hytrach na darparu ar gyfer twf annaturiol yn y boblogaeth (mewnlifiad). Ni wna darparu ar gyfer twf annaturiol ond ei annog. Felly, y mae unrhyw benderfyniad a wneir gan gynrychiolwyr etholedig y bobl yn y meysydd tai a chynllunio yn rhwym o ddylanwadu'n uniongyrchol yn y pen draw ar ansawdd ac ar effeithiolrwydd ein gwasanaethau cyhoeddus, yn addysg, yn iechyd, yn ofal cymdeithasol a lles.

Mewn perthynas â chynllunio ar gyfer y fasnach ymwelwyr, y mae Adfer yn argymell cyfyngu'n llym ar ddatblygiadau twristaidd gan na cheir mo'r amodau i ganiatáu rheolaeth ddemocrataidd uniongyrchol leol ar y cyfryw fasnach yn y Gymru ddilywodraeth sydd ohoni. Fe'ch cyfeiriwn at ddylanwad niweidiol y fasnach dwristaidd ar safle'r Gymraeg mewn ardaloedd ar arfordir Môn, yn ne Llŷn, yn Ardudwy a Cheredigion.

Daliwn felly fod angen gweithredu amodau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol yn y meysydd tai a chynllunio at ddiogelu a chryfhau hunaniaeth ein bröydd fel cartrefi tiriogaethol parhaol i'r Genedl Gymreig.

## Polisi Cynllunio

Yn y maes cynllunio dylid gweithredu polisïau a fydd yn diogelu ac yn hyrwyddo adferiad y gymdeithas Gymraeg. Sicrhawn na bydd unrhyw ddatblygiad yn niweidio nac yn peryglu cymeriad ieithyddol, diwylliannol na chymdeithasol Y Fro Gymraeg.

**1. Statws Cynllunio i'r Iaith Gymraeg.** Dylid cynnwys yr iaith fel ffactor hanfodol ym maes cynllunio llywodraeth leol drwyddo draw, gan osod bodolaeth a pharhad y Gymraeg yn brif ystyriaeth wrth roi neu wrthod caniatâd cynllunio.

**2. Statws Defnydd Cyhoeddus i'r Gymraeg.** Dylid annog defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion a ddangosir yn gyhoeddus, gan gynnwys arwyddion o

eiddo sefydliadau masnachol, e.e. siopau, swyddfeydd, gweithfeydd.

3. Dylid gwneud lles a pharhad cymeriad brodorol y gymdeithas Gymraeg yn garreg sylfaen astudiaethau pwnc, cynlluniau ardal a chynlluniau fframwaith.

4. Dylid gweithredu a chefnogi cynlluniau a fydd yn darparu ar gyfer anghenion y gymdeithas frodorol, yn hytrach na darparu ar gyfer twf annaturiol yn y boblogaeth oherwydd y mewnlifiad gan fod hynny ohono'i hun yn parhau tueddiadau sy'n niweidiol i'r gymdeithas frodorol.

5. Dylid darparu tir adeiladu a chaniatadau datblygiadau preswyl newydd i gyfarfod ag anghenion cydnabyddedig y gymdeithas leol, rhag creu gorddarpariaeth a fyddai'n annog mewnlifiad cyfrannol tuag at newid cymeriad ieithyddol y cymunedau.

6. Dylid annog datblygiadau diwydiannol a gweithfeydd amrywiol addas a fydd yn cynnal ac adfer y cymdeithasau Cymraeg naturiol fel na bo datblygu anghytbwys na chanolbwyntio ar bentrefi mwy a threfi neilltuol.

7. Dylid peidio â chaniatáu datblygiadau twristaidd sy'n fygythiad i fodolaeth a pharhad y gymdeithas Gymraeg.

8. Dylid cynllunio'n fwriadol i sicrhau ffyniant y Gymraeg trwy annog a chaniatáu datblygiadau a fydd yn cyfrannu at adferiad y gymdeithas Gymraeg.

9. Dylid sicrhau fod adrannau cynllunio'r cynghorau yn cynnal arolygon ac yn paratoi adroddiadau ar sefyllfa'r Gymraeg ym mhob ardal unigol o fewn eu tiriogaethau, ac yn cyflwyno argymhellion ar sut i ddiogelu ac atgyfnerthu fframwaith y gymdeithas Gymraeg.

10. Dylid annog cydweithrediad rhwng y cynghorau bro a dosbarth a sir sy'n gwasanaethu'r Fro Gymraeg i ddatblygu a gweithredu rhaglen gynhwysfawr o bolisïau er mwyn gwarchod ac adfer y gymdeithas Gymraeg.

**Polisi Tai**

1. Tai Cyngor. Dylid diogelu'r stoc dai gyhoeddus drwy:

(a) sicrhau fod pob teulu brodorol mewn angen yn cael tŷ cyngor;

(b) sicrhau ffynonellau ariannol digonol i ychwanegu yn gyson at y stoc gyhoeddus trwy brynu ac adnewyddu tai addas o'r stoc breifat neu dai sy'n perthyn i gyrff cyhoeddus (e.e., Yr Heddlu, Y Comisiwn Coedwigaeth, a.y.y.b.), i'w gosod ar rent i denantiaid er lles y gymdeithas Gymraeg;

(c) adeiladu tai cyngor newydd pan nad yw'n bosibl ateb y galw lleol wrth brynu o'r stoc breifat;

(ch) osod amodau wrth werthu tai cyngor i frodorion fel bo'r cynghorau a'r hawl ganddynt i'w hail-brynu fel y dônt ar y farchnad;

(d) sicrhau fod y drefn bwyntiau ar gyfer gosod tai cyngor yn cyfrannu tuag at sefydlogrwydd y gymdeithas frodorol, trwy roi ystyriaeth i iaith y gymdeithas leol fel ffactor wrth osod tai;

(dd) adolygu'r stoc gyhoeddus a'r galw lleol yn rheolaidd ym mhob bro.

**2. Y Stoc Dai Breifat.** Dylid cyfyngu ar y mewnlifiad enfawr o estroniaid sy'n tanseilio Cymreictod Y Fro Gymraeg trwy beidio ag ehangu'r stoc dai ar eu cyfer ynghyd â diogelu cymaint ag sy'n bosibl o'r stoc bresennol fel cartrefi i'r iaith Gymraeg. Amcenir at y nod hwn drwy:

(a) wrthod caniatâd cynllunio i gwmnïau preifat ddatblygu tai diangen a fyddai

(i) y tu hwnt i gyrraedd pocedi'r brodorion,

(ii) yn darparu ar gyfer y mewnlifiad estron,

(iii) yn ychwanegu at y broblem dai haf;

(b) tynnu'n ôl, neu wrthod adnewyddu,

unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd eisoes a fo'n ddiangen neu'n niweidiol i Gymreictod y fro;

(c) sicrhau fod gan yr awdurdodau lleol gyllid digonol i gyfarfod â'r galw oddi wrth frodorion am gymorthdaliadau sylweddol i atgyweirio a gwella tai.

**3. Datblygu Tai Preifat Unigol.**

(a) caniatáu ceisiadau cynllunio i godi tai unigol a fydd o les i Gymreictod y fro ac i sefydlogrwydd y boblogaeth frodorol;

(b) wrth roi caniatâd cynllunio i dŷ newydd, ei gwneud hi'n gytundeb cynllunio na chaiff neb ond rhywun a fu'n gweithio'n lleol neu sy'n gweithio'n lleol, neu sy'n cyfrannu at sefydlogrwydd y gymdeithas Gymraeg, aneddu'r tŷ, a hynny'n barhaol.

**4. Tai Haf/Ail Gartrefi.** Dylid amcanu at greu amodau a fydd yn lleihau'r nifer o dai haf yn Y Fro Gymraeg a'u troi'n gartrefi parhaol i'r iaith yn yr adran gyhoeddus a'r adran breifat. Sicrhawn na fydd tai haf yn arwain at ddiboblogi a gwanychu'r gymdeithas Gymraeg trwy:

(a) sicrhau'r hawl i gynghorau brynu unrhyw dŷ haf neu ail gartref yr ystyrir y byddai ei brynu er lles y gymdeithas Gymraeg am bris a fydd yn cyfateb i werth y tŷ yn ôl y prisiwr dosbarth;

(b) amcanu at brynu pob tŷ haf gan osod cymaint ag sy'n bosibl ohonynt yn dai cyngor neu eu gwerthu i frodorion gydag amodau ynghlwm â'u hail-werthu a'u defnyddio, er mwyn eu hatal rhag mynd yn dai haf neu'n gartrefi i fewnfudwyr;

(c) diddymu'r gostyngiad yn y dreth ddomestig i dai haf gan dalu'r incwm ychwanegol o'r trethi hyn i gyfrif tai'r cynghorau dosbarth;

(ch) sicrhau'r hawl i orfodi perchnogion presennol a darpar-berchenogion tai haf i wneud cais cynllunio am newid defnydd tŷ annedd yn ail gartref neu'n dŷ haf.

# Twristiaeth

Dengys tystiolaeth ffeithiol fod y fasnach dwristiaeth ar ei ffurf bresennol yn Y Fro Gymraeg yn rym er dadsefydlogi a difrodi cymunedau brodorol, a thrwy hynny'n cyfrannu at ddilead y genedl Gymreig; mae hyn oherwydd diffyg ymreolaeth y gymdeithas Gymraeg, gwendid presennol sefyllfa'n hiaith a'n diwylliant, diffyg ffynonellau cyflogaeth addas, a dylanwad y grymusterau sy'n rheoli'r farchnad. Er mwyn newid yr amgylchiadau sydd yn caniatáu hyn, y mae'n angenrheidiol diogelu'n bröydd a'n pobl rhag dylanwad niweidiol y fasnach, cyfyngu ar ei grym ac ymdrechu at geisio dulliau cynhaliaeth gwell a diogelach i'n cymunedau.

(i) Ni ddylid caniatáu camddefnyddio gweithgareddau, safleoedd, ac etifeddiaeth ddiwylliannol, hanesyddol a chrefyddol y Cymry ar gyfer dibenion y fasnach dwristaidd, na chaniatáu iddi ddylanwadu ar y cyfryw mewn unrhyw fodd.

(ii) Gyda lles ein cymunedau mewn golwg, dylid rhwystro unrhyw gynllun twristaidd a allai fygwth bodolaeth cymunedau, eu hunaniaeth a'u hetifeddiaeth. Dylid amddiffyn gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau cyhoeddus, safleoedd a mentrau masnachol, y stoc dai, adnoddau amaethyddol ac adnoddau dŵr rhag ymdrechion i'w camddefnyddio neu i'w gwyrdroi ar gyfer dibenion y fasnach dwristiaeth.

(iii) Dylid dileu'r gostyngiad yn y dreth ddomestig ar dai haf, a dylid hwyluso cynghorau lleol i'w prynu a'u gosod i deuluoedd lleol fel y bo'r cyfle. Dylid hefyd sefydlu cynlluniau yswiriant gorfodol ynglŷn â defnyddio adeiladau (gan gynnwys cyfleusterau harbwr) a ddefnyddir fel canolfannau gweithgareddau hamdden gan awdurdodau a chymdeithasau o'r tu allan i'r Fro Gymraeg. Byddai hyn yn gyfraniad at dreuliau darparu a chynnal gwasanaeth diogelwch.

(iv) Nid yw Bwrdd Croeso Cymru ond asiantaeth "ranbarthol" i Fwrdd Twristiaeth Prydain (Lloegr). Nid oes felly reolaeth Gymreig ar y fasnach dwristiaeth yn Y Fro Gymraeg. Dylid sicrhau rheolaeth ddemocrataidd uniongyrchol leol ar y grym a'r adnoddau ariannol a briodolir ar gyfer y fasnach dwristaidd.

(v) Dylai cynghorau, awdurdodau a chyrff cyhoeddus eraill yn Y Fro Gymraeg fabwysiadu polisïau cyflogi yn seiliedig ar y gallu i gyflawni gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gydweithredu â chyflogwyr ac â'r gwasanaethau gyrfaoedd er mwyn sicrhau fod darpariaethau'r drefn addysg a hyfforddiant yn cyfateb i anghenion cyflogaeth ein bröydd, gan bwyso am well cyfleusterau lle bo angen.

(vi) Dylai cynghorau lleol, awdurdodau cyhoeddus, cyflogwyr, masnachwyr, mudiadau a chymdeithasau yn Y Fro Gymraeg gydweithredu trwy ymroi i hybu sefydlu mentrau diwydiannol a gwasanaethau brodorol (gan gynnwys y diwydiant amaethyddol) a allai esgor ar gyflogaeth a budd economaidd a sefydlogrwydd cymunedol. Dylai trefniant o'r fath gynnwys hybu cydweithrediad rhwng myfyrwyr sefydliadau addysg uwch er mwyn hyrwyddo mentrau cydweithredol wedi'r cyfnod hyfforddiant; penodi swyddogion ac adnoddau i'r diben; casglu, trafod a rhannu gwybodaeth; meithrin cysylltiadau â chyrff eraill sydd â diddordeb ganddynt yn y maes; a chynnal arolygon mentrau a safleoedd addas.

# Datblygu

Yn wyneb dirywiad y diwydiannau cynhyrchiol a fu'n gynhaliaeth i gymunedau'r Fro Gymraeg, a'r dirywiad a fu o ganlyniad mewn diwydiannau eilradd a'r drefn fasnachol leol, agorwyd gwagle cyflogaethol yn ein bröydd na lwyddwyd i'w lenwi gan gynlluniau cyrff gwladwriaethol anetholedig, na chan unedau canghennol cwmnïau masnachol estron, na chan ymchwydd y fasnach dwristiaeth. Yn wir, gellid dadlau fod eu dyfodiad i'r bwlch hwn wedi gwaethygu sefyllfa ddrwg, a'i throi'n sefyllfa argyfyngus. Hynny i raddau helaeth oherwydd diffyg gwybodaeth yr uchod ynglŷn ag amgylchiadau lleol, eu hamharodrwydd i ystyried ein bröydd ond megis rhanbarth ymylol, a thuedd cyrff a chwmnïau allanol i weithredu gyda'u budd hwy eu hunain mewn golwg yn hytrach nag eiddo bröydd a chymunedau lleol. Gwelwn nid yn unig nad ydynt bob tro'n gyfystyr, ond yn aml yn hollol groes yn hynny.

Y mae i rannau o'r Fro Gymraeg sefydliadau llywodraethol a etholwyd gennym er mwyn gwarchod buddiannau'n bröydd; y cynghorau sir yw'r pennaf yn eu plith. A thra bo i'r cynghorau gyfrifoldeb dros agweddau pwysig ar fywyd cymunedol, gwelwn mai diffyg amlwg y sefyllfa bresennol yw eu bod yn amddifad o'r ffynonellau ariannol a'u galluogai i weithredu'n uniongyrchol ar sail eu gwybodaeth leol er lles diwydiant a chyflogaeth. Argymhella Mudiad Adfer y dylid rhoi'r grym ariannol angenrheidiol i Adrannau Diwydiannol pob Cyngor Sir, er mwyn dileu'r diffyg niweidiol hwn. Awgrymwn y gellid cyflawni hyn i raddau helaeth trwy rannu i'r Cynghorau Sir yr adnoddau a hawlir gan Awdurdod Datblygu Cymru a Datblygu'r Canolbarth ar hyn o bryd.

Credwn hefyd mai cam adeiladol ymlaen fuasai i adrannau diwydiannol ein cynghorau ymuno er mwyn ffurfio Cyd-bwyllgor Diwydiannol. Buasai corff o'r fath, o ystyried astudiaethau yn medru llunio strategaeth addas, a mynnu newid yn y drefn ddosbarthu arian ar gyfer diwydiant, drwy ei gyfeirio'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol. Gallasai gyflwyno gwybodaeth yn ogystal, a hybu gweithgaredd diwydiannol gan gynnwys mentrau cydweithredol a chyd-gysylltu ymdrechion adrannau gyrfaoedd ysgolion a cholegau addysg bellach i hyrwyddo ffurfio mentrau o'r fath. Gallasai sicrhau cydweithrediad cyrff eraill cysylltiol ym maes hybu diwydiannau hefyd.

Gofynnwn felly i bob cyngor ystyried o ddifrif ac yn fanwl ein hawgrym mai mwy effeithiol, buddiolach a diogelach fuasai i awdurdodau lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflenwi holl anghenion diwydiannol a chyflogaeth ein bröydd, yn hytrach na chyrff allanol anetholedig fel ag ar hyn o bryd; ac y dylent hawlio'r adnoddau a'u galluoga i gyflawni gwaith o'r fath, gan ffurfio corff a allasai hybu a chyd-gysylltu eu hymdrechion yn y maes. Y dewis fel arall yw gadael ein bröydd yng ngofal rhai na fedrant, neu na fynnant uniaethu â hwy; a chaniatáu i'r dirywiad presennol fynd rhagddo i'w derfyn.

**Polisi Datblygu**

Gwêl Mudiad Adfer fod sefydlogrwydd a pharhad cymunedau'r Fro Gymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar bresenoldeb amryfal fentrau diwydiannol, a'r cyfryw'n addas o ran maint, amrywiaeth, gallu cyflogaethol, a chyfraniad at fudd economaidd bröydd. O ddirywiad a diflaniad mentrau o'r fath y deillia llawer o

drafferthion presennol Y Fro Gymraeg, gan gynnwys diweithdra, ansefydlogrwydd, mewnlifiad ac allfudiad, a gorddibyniaeth ar gynlluniau cyrff gwladwriaethol anetholedig ac ar y fasnach dwristiaeth. Rhagwelwn y bydd i hyn arwain at ddadfeiliad cymunedau gwreiddiedig Y Fro Gymraeg, ac felly at ein diflaniad fel cenedl. Galwn felly ar i'r cyrff llywodraethol yr ymddiriedwyd iddynt ofal dros ein bröydd, yn enwedig ein cynghorau dosbarth a sir, beidio â phwyso ar atyniadau arwynebol a chynlluniau bregus, niweidiol a hyrwyddir gan gyrff masnachol a gwladwriaethol estron. Yn hytrach fe'u hanogwn i weithredu'n uniongyrchol, yn bendant, ac yn fuan i hyrwyddo sefydlu a chynnal mentrau diwydiannol brodorol yn ôl yr anghenion uchod, a hynny mewn cydweithrediad â'i gilydd, ag awdurdodau addysg lleol, a chydag eraill sydd â diddordeb ganddynt yn y maes a gwybodaeth yn ei gylch, fel a ganlyn:

(i) Dylai pob cyngor dosbarth yn Y Fro Gymraeg gynnal astudiaeth fanwl ynghylch sut ddiwydiannau cynhyrchu fuasai'n addas i'w diriogaeth, gan ystyried lleoliad, adnoddau crai, tir, ac yn y blaen. Dylid ymchwilio hefyd i ddulliau ategu'r diwydiant amaethyddol trwy ddatblygiadau cysylltiol megis sefydlu cwmnïau cydweithredol, lladd-dai, gweithdai, a mentrau eraill.

(ii) Dylai cynghorau dosbarth a sir gydweithredu er mwyn datblygu cynlluniau sirol ynghylch yr uchod, trwy sefydlu Pwyllgorau Diwydiant a Chyflogaeth, er enghraifft. Gwaith pwyllgor o'r fath fuasai gweithredu ar sail adroddiadau ac astudiaethau, llunio strategaeth sirol a chyd-sirol, pennu lleoliad pob datblygiad yn addas, ac yn y blaen.

(iii) Dylai fod yna gydweithrediad ffurfiol rhwng Adrannau Addysg a Diwydiant cynghorau sir, er mwyn sicrhau sefydlu trefn addysg a hyfforddiant addas ar gyfer diwallu anghenion cyflogi ac anghenion sirol.

(iv) Galwn am drosglwyddo adnoddau ariannol Awdurdod Datblygu Cymru a Datblygu'r Canolbarth yn uniongyrchol i Adrannau Diwydiannol ein cynghorau sir, a'u defnyddio er mwyn gweithredu cynlluniau diwydiannol a datblygu diwydiannau addas eu maint a'u natur mewn perthynas â gwir anghenion cymunedau ein bröydd.

(v) Lle na bo gweithwyr hyfforddedig ar gael ar gyfer llenwi swyddi allweddol, dylid ymdrechu tuag at ddenu'r Cymry cymwys hynny sydd ar hyn o bryd yn gweithio y tu allan i'r Fro Gymraeg, a chydweithredu â'r drefn addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau cyflenwad gweithwyr allweddol. Er mwyn sicrhau graddau cyflogi lleol a gwella safon gwasanaethau, dylai pob cyngor, awdurdod, a chorff cyhoeddus yn Y Fro Gymraeg fabwysiadu polisïau staffio sy'n seiliedig ar y gallu i gyflawni gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

(vi) Dylai Adrannau Diwydiannol ein cynghorau ymuno er mwyn ffurfio Cyd-bwyllgor Diwydiannol. Buasai corff o'r fath, o ystyried astudiaethau, yn medru llunio strategaeth addas, a mynnu newid yn y drefn dosbarthu arian ar gyfer diwydiant, drwy ei gyfeirio'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol. Gallasai gyflwyno gwybodaeth yn ogystal, a hybu gweithgaredd diwydiannol gan gynnwys mentrau cydweithredol a chydgysylltu ymdrechion adrannau gyrfaoedd ysgolion a cholegau addysg bellach i hyrwyddo ffurfio mentrau o'r fath. Gallasai sicrhau cydweithrediad cyrff eraill cysylltiol ym maes hybu diwydiannau hefyd.

# Addysg

**Cyffredinol.** O ran egwyddor gyffredinol, dylid sefydlu mai'r Gymraeg yw iaith addysg yn ei holl agweddau oddi mewn i'r Fro Gymraeg.

Dymunwn ddatgan yr hawl ddiymwad i addysg gyflawn Gymraeg ac i ddilyniant di-dor mewn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o'r ysgol feithrin hyd at y sefydliadau addysg bellach. I sicrhau hyn rhaid wrth sefydliadau Cymraeg eu gweinyddiad a Chymreig eu diwylliant er mwyn cynnal naws ac amgylchedd Cymreig. Mae hyn yn gofyn am staff Gymraeg ym mhob adran: yn athrawon, yn ofalwyr, yn weinyddwyr ac yn y blaen. Dylai'r Gymraeg fod yn iaith lafar gymdeithasol oddi mewn i bob sefydliad addysgiadol ac yn iaith pob math o weithgareddau allgyrsiol. **Amcan yr holl argymhellion yw cyrchu'r nod o sefydlu cyfundrefn addysg a fydd yn sicrhau addysg gyflawn Gymraeg i bob disgybl.**

### Crynodeb o'r argymhellion

**Tan bump oed. 2½-4 oed:** Canolbwyntio ar gefnogi ymdrechion Mudiad Ysgolion Meithrin gan roi blaenoriaeth i'r ardaloedd traddodiadol Gymraeg lle mae cyfartaledd uchel o fewnfudwyr. **4+ oed:** Darpariaeth oddi mewn i'r ysgolion cynradd gan yr awdurdod addysg lleol, gan ganolbwyntio fel uchod.

**Babanod. 5-7 oed:** Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob disgybl ym mhob pwnc, er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gallu deall a siarad Cymraeg yn drwyadl erbyn ei fod yn saith oed.

**Iau. 7-11 oed:** Addysg gyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl gan roi sylw cynyddol i ddatblygu medrau ysgrifennu, darllen a llafar. Sicrhau fod canolfannau iaith ar gyfer mewnfudwyr di-Gymraeg pob ardal er mwyn iddynt ddysgu Gymraeg **cyn** mynychu ysgol leol.

**Uwchradd. 11-14 oed:** Darparu addysg gyflawn Gymraeg o fewn ei fro i bob disgybl. **14+ oed:** Darparu ac ehangu addysg gyflawn Gymraeg, a sefydlu polisi o gynyddu'n gyson nifer y pynciau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y broses ni fydd disgybl na fydd yn derbyn cyfran o'i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Addysg Bellach.** Gan fod cyfartaledd mor uchel o fyfyrwyr mewn cymaint o'r colegau amaethyddol a'r colegau technegol yn Gymry Cymraeg, gellid eu penodi'n golegau Cymraeg rhag blaen. Yn achos colegau eraill dylid sicrhau fod cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc, fod adnoddau digonol ar gael a bod y Gymraeg yn gymhwyster angenrheidiol wrth benodi staff i bob adran, yn academaidd, yn weinyddol ac yn gynnal a chadw.

**Prifysgol Gymraeg.** Cefnogwn y syniad o golegiwm, gydag un prifathro, cofrestrfa ac ati, wedi ei leoli ym Mangor ac yn Aberystwyth.

**Addysg Oedolion.** Dylid cynnig cyrsiau mewn pynciau amrywiol, academig ac ymarferol, ar gyfer oedolion gan ddatblygu a chefnogi gwaith mudiadau fel Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. Dylid sefydlu mai'r Gymraeg yw iaith y cyrsiau hyn oddi mewn i'r Fro Gymraeg.

Dylid sicrhau rhwydwaith o ddosbarthiadau ar wahanol lefelau i ddysgu Cymraeg fel ail iaith i oedolion. Byddai'r gwaith yn lleol dan ofal Trefnydd Lleol Dysgu Ail Iaith a gyflogid gan yr awdurdod addysg lleol.

Rhaid sicrhau fod gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol i unrhyw un sydd yn rhan o'r gyfundrefn addysg oddi mewn i'r

Fro Gymraeg. Er mwyn teqwch â'r di-Gymraeg rhaid sicrhau fod cyfle llawn iddynt ddysgu'r iaith yn effeithiol, yn drwyadl ac yn gyflym gan sicrhau mai'r Gymraeg fydd yr iaith a fydd yn uno cymdeithas ac yn cymathu pobl o wahanol gefndir.

## Addysg Feithrin

Mae Adfer yn cefnogi'r egwyddor o ddarpariaeth ar gyfer addysg feithrin (2½-5 oed). Yn ystod y blynyddoedd hyn y mae potensial plentyn ar ei anterth o ran ei allu i gynyddu ei stôr o wybodaeth. Yn y sefyllfa ieithyddol sydd ohoni yng Nghymru heddiw y mae i addysg feithrin gyfraniad holl bwysig i ddiogelu'r Gymraeg. Dylai ysgolion meithrin fod yn gyfle i Gymry bach chwarae a chymdeithasu a dysgu mewn awyrgylch anffurfiol dan gyfarwyddyd athrawes/athro a fydd yn cyfoethogi eu profiad.

Bron ledled Y Fro Gymraeg mae nifer o blant ifainc o gartrefi di-Gymraeg. Nid oes amheuaeth nad yw plant o oedran meithrin yn gallu dysgu ail-iaith yn gynt, yn fwy naturiol a chyda llai o anhawsterau na dysgwyr hŷn. Gall ysgolion meithrin gyfrannu'n helaeth tuag at gymathu'r di-Gymraeg.

Os yw'r Gymraeg i barhau'n iaith naturiol i'r gymdeithas gyfan rhaid sicrhau fod y Gymraeg yn iaith naturiol cyfathrebu rhwng plant a'i gilydd. Er mwyn cyflawni hyn rhaid sicrhau fod plant o gartrefi di-Gymraeg yn dysgu Cymraeg cyn bod y rhai o gartrefi Cymraeg yn tyfu'n rhugl yn y Saesneg.

Mae'r amodau canlynol yn hanfodol er mwyn sicrhau'r amcanion hyn:

1. Dylai'r ysgolion meithrin fod yn rhai uniaith Gymraeg. Nid oes modd diogelu hawliau'r Cymry na chymathu'r di-Gymraeg os oes ymyrraeth o du'r Saesneg yn yr ysgol.
2. Rhaid sicrhau fod digon o gyllid gan yr awdurdodau lleol naill ai er mwyn sefydlu eu hysgolion neu eu hunedau hwy eu hunain neu i gefnogi gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin er mwyn sicrhau adeilad addas, athrawon medrus a chyfarpar digonol.
3. Cydweithrediad rhwng yr ysgolion meithrin a'r trefnwyr dysgu ail-iaith fel y bydd cyfle i rieni di-Gymraeg ddysgu'r iaith.
4. Rhaid sicrhau fod dilyniant o addysg Gymraeg ar gael wedi i'r plant adael yr ysgol feithrin.

Anogir yr awdurdodau cyhoeddus i roi blaenoriaeth i sicrhau addysg feithrin yn yr ardaloedd traddodiadol Gymraeg, yn arbennig yn yr ardaloedd hynny lle mae cyfartaledd uchel o fewnfudwyr.

## Ysgolion Cynradd (5-11 oed)

**Adran Babanod (5-7 oed).** Dysgir yr holl ddisgyblion ym mhob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn gallu deall a siarad Cymraeg yn rhugl erbyn ei fod yn saith oed. Dylid cyflwyno mathemateg a darllen trwy gyfrwng y Gymraeg a cheisio sicrhau mai'r Gymraeg yw iaith y buarth ac iaith naturiol sgwrsio plant â'i gilydd. Bydd hyn yn barhad ac yn gadarnhad o'r gwaith a wnaed eisoes yn yr ysgolion meithrin.

Yn ystod y cyfnod hwn gall ysgolion lwyddo i gymathu'n effeithiol rai mewnfudwyr di-Gymraeg a fydd yn cyrraedd yr ysgol cyn belled â bod agweddau eraill o'r ddarpariaeth addysgol yn gweithredu'n effeithiol. Os oes cymaint o fewnfudo yn digwydd fel ag y byddai'n bygwth cymathu llwyddiannus (yn arbennig os yw'r plant yn chwech neu saith oed) dylid sicrhau fod cymorth ychwanegol arbenigol ar gael i gadarnhau'r gwaith.

**Adran Iau (7-11 oed).** Dylai fod addysg gyflawn Gymraeg i bob plentyn gan roi

sylw arbennig i ddatblygu medrau ysgrifennu yn Gymraeg. Golyga hyn y bydd pob disgybl yn parhau i gael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid sicrhau fod holl staff yr ysgol yn medru'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys, wrth gwrs, staff y gegin, gweinyddwyr, gofalwyr ac ati. Mae'n rhaid i'r ysgolion cynradd fod yn gaerau o Gymreictod trylwyr a chadarn cyn y gallant gyflawni eu swyddogaeth o ddiogelu Cymreictod y Cymry Cymraeg a meithrin Cymreictod y rhai o gartrefi di-Gymraeg.

Os oes mewnfudwyr di-Gymraeg yn ceisio mynediad i ysgol leol yn ystod y cyfnod hwn rhaid dysgu Cymraeg iddynt cyn iddynt ddechrau mynychu'r ysgol. Os na wneir hyn nid oes obaith y defnyddir y Gymraeg ganddynt i gyfathrebu â'u cyd-ddisgyblion a fydd erbyn hynny oll yn rhugl yn y Saesneg. Os bydd y cyswllt cyntaf rhwng y mewnfudwyr a'u cyd-ddisgyblion trwy gyfrwng y Saesneg caiff arferiad ei sefydlu y bydd yn anodd iawn ei ddiystyru yn ddiweddarach.

Golyga hyn ei bod yn hanfodol sefydlu rhwydwaith o **Ganolfannau Iaith,** o leiaf un ar gyfer dalgylch pob ysgol uwchradd. Dylai bod gan brifathro ysgol gynradd yr hawl i wrthod mynediad i blentyn di-Gymraeg os na all ddarparu addysg addas ar ei gyfer oddi mewn i'r ysgol. Os oes nifer uchel o ddysgwyr ac amryw o fewnfudwyr bydd yn amhosibl i'r ysgol ddysgu Cymraeg i'r mewnfudwr yn ddigon buan i'w alluogi i ddilyn gwersi a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd felly er lles addysgol y mewnfudwyr iddynt ddysgu Cymraeg cyn gynted ag sy'n bosibl.

### Mewnfudwyr di-Gymraeg

Mae angen yr un math o ddarpariaeth arbennig ar gyfer dysgu Cymraeg i'r mewnfudwyr hŷn a fydd yn cyrraedd ysgolion uwchradd ac sydd ar gyfer y rhai o oed cynradd. Dylai'r gallu i ddeall ac i siarad Cymraeg fod yn hanfodol i bob disgybl mewn ysgol uwchradd yn Y Fro Gymraeg. Mae'n angenrheidiol felly sicrhau dull o ddysgu Cymraeg iddynt cyn gynted ag sy'n bosibl.

Gallai disgyblion 11-14 oed ddefnyddio'r un canolfannau â disgyblion 7-11. Mewn rhai rhannau mwy poblog o'r Fro Gymraeg mae'n bosibl y byddai angen canolfannau ar gyfer disgyblion o fewnfudwyr o oedran astudio ar gyfer arholiadau allanol gan eu hannog i ddysgu Cymraeg. Efallai na fyddai'n bosibl iddynt dderbyn gwersi ym mhob pwnc mewn rhai ysgolion heb fod ganddynt gymhwyster yn y Gymraeg beth bynnag. Mae angen cymorth arbenigol ychwanegol i'r ysgolion uwchradd fedru dysgu Cymraeg yn effeithiol i'r rhain — nid yw'n deg iddynt hwy, y disgyblion eraill na'r athrawon i'w hychwanegu at ddosbarthiadau eraill sydd â gafael da ar y Gymraeg ganddynt.

Mae angen penodi athro/athrawes ar gyfer dalgylch pob ysgol uwchradd i arolygu a gweinyddu'r drefn hon. Byddai hwnnw yn gyfrifol hefyd am drefnu cyrsiau Cymraeg i oedolion ac, os byddai angen, penodir staff ychwanegol i'w gynorthwyo.

### Addysg i Oedolion

Mae Mudiad Adfer yn datgan ei gefnogaeth i ddarparu cyrsiau amrywiol ar gyfer oedolion ac yn pwysleisio gwerth a phwysigrwydd addysg o'r math hwn. Dylid sefydlu'r Gymraeg fel iaith hyfforddi ac addysgu mewn dosbarthiadau nos yr adran addysg leol, adrannau Efrydiau Allanol, a'r colegau Technegol oddi mewn i'r Fro Gymraeg gan gynnwys nid yn unig byncíau mwy academaidd eu naws megis hanes neu lenyddiaeth ond pynciau ymarferol megis gwaith coed, coginio,

weldio, trin ceir, ac ati, pynciau sydd yn aml yn boblogaidd iawn gyda phobl ifanc. Dylid cynnig cyrsiau mewn pynciau amrywiol, academaidd ac ymarferol, ar gyfer oedolion gan ddatblygu a chefnogi gwaith mudiadau fel Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. Dylid sicrhau darpariaeth gyflawn i siaradwyr Cymraeg yn y meysydd hyn yn lleol.

**Dysgu'r Gymraeg fel ail-iaith**

Argymhellir sefydlu peirianwaith o dan nawdd y cynghorau sir a fyddai'n defnyddio'r mudiadau sydd eisoes yn dysgu Cymraeg fel ail-iaith i gyflawni'r amcan o gyfannu cymdeithasau yn Y Fro Gymraeg drwy eu priod iaith. Mae angen trefniant newydd er mwyn sicrhau cydweithrediad clos rhwng y cyrff hyn, ar gyfer darparu adnoddau, hyfforddi athrawon, hysbysebu'r cyfleusterau a chysylltu â mewnfudwyr. Dylid penodi **Uwch-drefnyddion rhanbarth** (e.e. Arfon, Dinefwr, Preseli) a **Threfnyddion Lleol Dysgu Ail-iaith** oddi mewn i ddalgylch pob ysgol uwchradd. Bydd angen cysylltu â mewnfudwyr cyn gynted ag sy'n bosibl i gyflwyno'r syniad a'u hannog i fynychu cwrs a llunio rhaglen ddysgu ar eu cyfer. Bydd yn ddyletswydd ar y Trefnydd i ofalu am y disgybl, mesur ei lwyddiant, rhoi cyngor a'i gynorthwyo i feithrin yr hyder i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol oddi mewn i'r gymdeithas.

# Awdurdod i'r Fro Gymraeg

Unir ardaloedd Y Fro Gymraeg gan eu sefyllfa ddaearyddol, eu hamgylchiadau economaidd, ac uwchlaw oll gan yr iaith Gymraeg. Y Gymraeg sy'n rhoi i'n cymunedau eu diwylliant cyffredin heb yr hwn ni fuasent yn bod. Rhaid i unrhyw fwriad i atgyfnerthu a diogelu cymunedau'r Fro Gymraeg weithredu'n unol â'r cymeriad ieithyddol a diwylliannol unigryw hwn.

Gan hynny anogwn ein cynghorau etholedig i gydnabod eu hundod sylfaenol drwy sefydlu rhyngddynt gorff o gynrychiolwyr i ffurfio **Awdurdod i'r Fro Gymraeg.** Trwy hynny fe'u galluogir i rannu a chyfnewid eu gwybodaeth a'u profiad helaeth yng ngwaith llywodraethu dros gymunedau Cymraeg. Fe'u galluogir i gydweithio er mwyn sicrhau parhad ein cymunedau ac i lefaru ar ein rhan mewn modd grymusach ac effeithiolach nag y gallasai unrhyw gorff etholedig presennol ar ei ben ei hun. Buasai hefyd mewn sefyllfa gref i drafod a chydweithredu â chyrff neu awdurdodau eraill er mwyn sicrhau lles ein pobl, boed hynny trwy hybu datblygiad cydnaws neu trwy ein hamddiffyn rhag yr anghydnaws.

Ni ellir hyn gan unrhyw gyrff nad ydynt o'r Fro Gymraeg ac nad ydynt â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn rhan hanfodol ohonynt. Gellir hyn yn unig trwy i'r cynghorau a etholwyd gennym gydweithredu er ein lles ni oll.

£1.00